# SYNIADAU AR GYFER OEDFA
# PUM PETH PERSONOL

PUM PETH PERSONOL

**Emynau (o *Caneuon Ffydd*):**
**841, 816, 843, 837**

**Darlleniadau addas:**
**Salm 25:4-6 ac 8-12; Iago 2:14-18;**
**Mathew 22:34-40**

***Gweddïau unigol ar gyfer y Pum Peth Personol (isod)***

---

## Gweddi – Bwyd *(Arweinydd a chynulleidfa)*



Arglwydd ein Duw, Crëwr pawb a phopeth, diolchwn i ti am y cyfoeth rhyfeddol a roddaist i ni yn ein byd, a'r amrywiaeth bendigedig o fwyd a diod sydd ar gael i ni. Diolchwn ein bod ni'n cael y fraint o fwynhau bwyd maethlon bob dydd, ac mai anaml iawn, os o gwbl, y byddwn ni'n mynd heb ddigon.

Diolchwn fod y blaned rydym yn byw arni yn lle mor doreithiog a ffrwythlon, ac am y potensial sydd ganddi i fwydo holl bobl y byd. Ond cyfaddefwn mewn cywilydd ein bod wedi trin bwyd mewn ffordd hunanol yn aml, heb boeni am y rhai sy'n ei gynhyrchu, nag effaith y prisiau isel rydyn ni'n eu talu ar eraill. Gweddïwn am newid meddylfryd, fel bod gofal am eraill yn dod yn flaenoriaeth, ac adnoddau'r ddaear yn cael eu defnyddio i fwydo'r rhai sydd mewn angen.

**Helpa bob un ohonom i werthfawrogi ein bwyd yn fwy, O Dduw, ac i ddiolch yn ddidwyll am ymdrechion y rhai sy'n gweithio i'w gynhyrchu a'i ddosbarthu i ni. Gwna ein dewisiadau bwyd yn rhai gofalgar, sy'n rhoi blaenoriaeth i les pobl eraill a dyfodol y blaned, fel bod y bwyd a fwytawn yn gynhaliaeth i ni, ond hefyd yn fendith i eraill, ac yn tystio i'n hawydd i ddilyn Iesu. Amen**

---

## Gweddi – Ynni *(Arweinydd a chynulleidfa)*

Arglwydd ein Duw, diolchwn i ti am ein cartrefi clyd, a'r ffaith bod gennym ni gynifer o declynnau a pheiriannau sy'n hwyluso ein bywydau. Rydyn ni'n sylweddoli ein bod ni'n freintiedig yn hyn, ond helpa ni i beidio â defnyddio'r adnoddau yn ein cartrefi'n ddifeddwl nac yn anystyriol. Gwyddom fod ynni aruthrol yn cael ei wastraffu bob dydd, a gofynnwn am dy faddeuant am y ffaith ein bod weithiau'n defnyddio ynni'n hunanol, gan gyfrannu at y picil mae ein byd ynddo erbyn hyn, wrth i'r ddaear gynhesu ac i lefel y môr godi.



**Helpa bob un ohonom i fod yn fwy ystyriol yn ein defnydd o ynni, O Dduw, i droi cefn ar arferion gwastraffus, ac i addysgu'n hunain am argyfwng yr hinsawdd a'r niwed mae allyriadau carbon yn ei greu. Gwna ein dewisiadau ynni yn rhai gofalgar, sy'n rhoi blaenoriaeth i les pobl eraill a dyfodol y blaned, fel bod ein dull o drin ynni yn tystio i'n hawydd i ddilyn Iesu a bod yn stiwardiaid gwell ar dy gread. Amen**

## Gweddi – Teithio *(Arweinydd a chynulleidfa)*

Arglwydd ein Duw, rydyn ni'n ymwybodol bod teithio wedi dod yn rhan annatod o fywydau cynifer ohonom, a'n bod ni ddim bellach, yn wahanol i genedlaethau blaenorol, wedi'n cyfyngu i'r lleol a'r pethau sydd o fewn cyrraedd hwylus. Diolchwn am y cyfleoedd mae hynny wedi'u rhoi i ni, o ran dod i adnabod gwledydd eraill, a chwrdd â ffrindiau newydd mewn gwahanol rannau o'r byd. Diolchwn hefyd am yr holl ddewisiadau sydd ar gael i ni oherwydd ein bod yn gallu teithio mor rhwydd. Ond wrth ddiolch am y breintiau, cyfaddefwn hefyd fod teithio mor hwylus nes ein bod bellach yn cymryd y cyfleus yn ganiataol, ac weithiau'n ddiog, ac yn barod i neidio i'r car yn ddifeddwl, neu deithio'n bellach i wneud rhywbeth, heb ystyried a oes angen gwneud hynny mewn gwirionedd.



**Helpa bob un ohonom i fod yn fwy ystyriol wrth deithio, O Dduw, ac i beidio â bod yn wastraffus yn ein defnydd o'r adnoddau sydd ar gael i ni. Gwna ein dewisiadau teithio yn rhai gofalgar, sy'n rhoi blaenoriaeth i les pobl eraill a dyfodol y blaned, fel bod ein dull o deithio yn tystio i'n hawydd i ddilyn Iesu a bod yn stiwardiaid gwell ar dy gread. Amen**

## Gweddi – Dillad *(Arweinydd a chynulleidfa)*

Arglwydd ein Duw, diolchwn i ti am y ffaith ein bod ni'n freintiedig o ran y dillad sydd ar gael i ni. Mae pawb ohonom wedi gallu dewis rhywbeth trwsiadus i ddod i'r oedfa bore 'ma, ac mae digonedd yn ein cwpwrdd dillad. Rydyn ni'n ymwybodol o'n breintiau, ond ar yr un pryd, rydyn ni hefyd yn ymwybodol bod y diwydiant dillad yn cuddio llawer o amodau gwaith erchyll, triniaeth annheg, a chaethwasiaeth fodern.



Cyfaddefwn ein bod weithiau wedi prynu dillad rhad ac eitemau fydd yn troi'n wastraff mewn dim o dro heb feddwl o gwbl am y niwed i'r blaned na'r gost i'r bobl sy'n eu cynhyrchu, a gweddïwn am newid meddylfryd yn y diwydiant dillad, fel bod lles pobl a'r cread yn dod yn fwy o flaenoriaeth na'r pris gorau i'r cwsmer a'r elw mwyaf i'r masnachwr.

**Helpa bob un ohonom i fod yn fwy ystyriol wrth brynu dillad, O Dduw, ac i addysgu'n hunain am gefndir y rhai sy'n gweithio i'w cynhyrchu ar ein cyfer. Gwna ein dewisiadau dillad yn rhai gofalgar, sy'n rhoi blaenoriaeth i les pobl eraill a dyfodol y blaned, fel bod y dillad a wisgwn yn tystio i'n hawydd i ddilyn Iesu. Amen**

## Gweddi – Dewisiadau Gofalgar

*(Pawb yn ymuno yn y weddi hon)*



**Arglwydd Dduw, a greodd y byd yn gartref i ni, rydyn ni am fod yn stiwardiaid gwell ar y greadigaeth, a chyflwynwn y dewisiadau gofalgar a wnaethom yn ystod yr wythnos yn arwydd o'n cariad a'n gofal, a hefyd o'n hawydd i wneud mwy i wyrdroi'r difrod mae'r ddynoliaeth wedi'i achosi i'th gread. Gwyddom fod rhai dewisiadau gofalgar yn haws i rai ohonom nag eraill, ond diolchwn am bob cam bach a mawr a gymerwyd yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Gweddïwn hefyd y bydd pob un ohonom yn mentro gwneud mwy o ddewisiadau sy'n dangos cariad at gymydog, fel y gallwn, yn unigolion ac fel eglwys, gydweithio i ofalu am y blaned a greaist ti, sy'n gartref mor hardd i ni. Amen**